# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12/01/2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Y Tywydd

**C11 Alun Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei gynlluniau i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i allu delio ag amodau tywydd garw? OAQ(3)2500(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Yr ydym wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol a'r gwasanaethau brys i sicrhau bod swyddogaethau critigol yn cael eu cynnal hyd eithaf ein gallu. Ein prif ffocws yw cadw'r ffyrdd ar agor fel y gellir cynnal gwasanaethau hanfodol.

### Blaenoriaethau

**C12 Darren Millar:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer 2010? OAQ(3)2514(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â'r problemau a achosir gan y tywydd garw presennol. Yn ystod 2010, byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' a'n rhaglen ddeddfwriaethol, gan weithio drwy benderfyniadau gwario anodd a gosod sylfeini i adfer yr economi mewn ffordd gynaliadwy, a byddwn yn ceisio cael mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

### Blaenoriaethau

**C13 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2010? OAQ(3)2515(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â'r problemau a achosir gan y tywydd garw presennol. Yn ystod 2010, byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' a'n rhaglen ddeddfwriaethol, gan weithio drwy benderfyniadau gwario anodd a gosod sylfeini i adfer yr economi mewn ffordd gynaliadwy, a byddwn yn ceisio cael mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

### Blaenoriaethau

**C14 Alun Cairns:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(3)2512(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael â'r problemau a achosir gan y tywydd garw presennol. Yn ystod 2010, byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' a'n rhaglen ddeddfwriaethol, gan weithio drwy benderfyniadau gwario anodd a gosod sylfeini i adfer yr economi mewn ffordd gynaliadwy, a byddwn yn ceisio cael mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

### Blaenoriaethau

**C15 Gareth Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer 2010? OAQ(3)2517(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i’r afael â’r problemau a achosir gan y tywydd garw presennol. Yn ystod 2010, byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yn ‘Cymru’n Un’ a’n rhaglen ddeddfwriaethol, gan weithio drwy benderfyniadau gwario anodd a gosod sylfeini i adfer yr economi mewn ffordd gynaliadwy, a byddwn yn ceisio cael mwy o bwerau i’r Cynulliad Cenedlaethol.